# Rheoliadau allweddol

Mae ein gwaith yn seiliedig ar nifer o ddarnau allweddol o ddeddfwriaeth.

## Deddf Safonau Bwyd 1999

Prif bwrpas Deddf Safonau Bwyd 1999 yw ein sefydlu fel yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB).

Mae'r Ddeddf yn bodoli i roi swyddogaethau a phwerau i ni, ac i drosglwyddo rhai swyddogaethau mewn perthynas â diogelwch a safonau bwyd.

Cyflwynwyd y Ddeddf yn Nh?'r Cyffredin ym 1999.

Mae'n nodi ein prif nod i ddiogelu iechyd y cyhoedd mewn perthynas â bwyd. Mae'n rhoi'r p?er i ni weithredu er budd y defnyddiwr ar unrhyw adeg yn y gadwyn cyflenwi a chynhyrchu bwyd.

Deddfwriaeth Deddf Safonau Bwyd 1999

## Deddf Diogelwch Bwyd 1990

Mae Deddf Diogelwch Bwyd 1990 (fel y'i diwygiwyd) yn darparu'r fframwaith ar gyfer yr holl ddeddfwriaeth fwyd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Y prif gyfrifoldebau ar gyfer pob busnes bwyd o dan y Ddeddf yw sicrhau:

- nad yw busnesau yn cynnwys unrhyw beth mewn bwyd, yn cael gwared ar unrhyw beth o fwyd nac yn trin bwyd mewn unrhyw ffordd sy'n golygu y byddai'n niweidiol i iechyd y bobl sy'n ei fwyta
- bod y bwyd y mae busnesau yn ei weini neu ei werthu o'r natur, y sylwedd neu'r ansawdd y byddai defnyddwyr yn ei ddisgwyl
- bod y bwyd wedi'i labelu, ei hysbysebu a'i gyflwyno mewn ffordd nad yw'n ffug neu'n gamarweiniol

Pwysig

### Cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yr UE yng nghanllawiau'r ASB

Nid yw deddfwriaeth sy'n uniongyrchol gymwys i'r UE bellach yn gymwys ym Mhrydain Fawr. Daeth deddfwriaeth yr UE a ddargadwyd pan ymadawodd y DU â'r UE yn gyfraith a gymathwyd ar 1 Ionawr 2024, yn unol â'r hyn a gyhoeddwyd ar legislation.gov.uk. Dylai cyfeiriadau at unrhyw ddeddfwriaeth yng nghanllawiau'r ASB sydd ag 'UE' neu 'CE' yn y teitl (er enghraifft, Rheoliad (CE) 178/2002) gael eu hystyried yn gyfraith a gymathwyd lle bo hynny'n gymwys i Brydain Fawr. Bellach, dylid ystyried cyfeiriadau at 'Gyfraith yr UE a Ddargedwir' neu 'REUL' fel cyfeiriadau at gyfraith a gymathwyd.

Yn achos busnesau sy'n symud nwyddau o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon, mae gwybodaeth am Fframwaith Windsor ar gael ar GOV.UK.

Mabwysiadwyd Fframwaith Windsor gan y DU a'r UE ar 24 Mawrth 2023. Mae'r Fframwaith yn

darparu set unigryw o drefniadau i gefnogi llif cynhyrchion manwerthu bwyd-amaeth o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon, gan ganiatáu i safonau Prydain Fawr o ran iechyd y cyhoedd mewn perthynas â bwyd, marchnata a deunyddiau organig fod yn gymwys i nwyddau manwerthu wedi'u pecynnu ymlaen llaw a gaiff eu symud drwy Gynllun Symud Nwyddau Manwerthu Gogledd Iwerddon (NIRMS).

### England and Wales

PDF
Gweld Food Safety Act 1990 - a guide for food businesses as PDF(Open in a new window)
(531.99 KB)

### Northern Ireland

PDF
Gweld Northern Ireland Food Safety Order 1991 business guide as PDF(Open in a new window)
(301.5 KB)

## Cyfraith Bwyd Cyffredinol

P'un a ydych chi'n fusnes bwyd neu'n ddefnyddiwr sydd â diddordeb mewn cyfraith bwyd, mae gofynion cyffredinol y dylech chi fod yn ymwybodol ohonynt.

Mae'r trosolwg hwn yn trafod y brif ddeddfwriaeth yn y meysydd canlynol:

- mewnforion ac allforion bwyd
- diogelwch
- olrhain
- labelu
- galw a thynnu cynhyrchion yn ôl

Cyfraith Bwyd Cyffredinol

## Codau Ymarfer

Cymryd cip ar Godau Ymarfer Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

## Rheoliad Gwybodaeth am Fwyd

Daeth Rheoliadau domestig Gwybodaeth am Fwyd 2014 i rym ar 14 Gorffennaf 2014 ac mae'n galluogi awdurdodau lleol i orfodi Rheoliad (UE) 1169/2011 a gymathwyd ar wybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr (Rheoliadau FIC).

Mae angen i fusnesau ddarparu gwybodaeth am alergenau os yw'r bwyd yn cynnwys unrhyw un o'r 14 alergen fel y'u rhestrir yn y 'rheoliadau FIC'. Canllawiau i fusnesau bwyd ar ddarparu gwybodaeth am alergenau ac arfer gorau ar gyfer trin alergenau.

Bydd modd defnyddio trosedd wrth gefn os nad yw busnesau yn cydymffurfio â Hysbysiad Gwella, lle bydd gofyn i droseddwr, ar gollfarn ddiannod (summary conviction), dalu dirwy nad yw'n fwy na lefel 5. Bydd troseddau yn parhau i fodoli os yw busnesau yn mynd yn groes i ddarpariaethau penodol. Mae'r rhain yn cynnwys, yn bennaf, cam-labelu bwyd sy'n cynnwys alergenau gan fod peidio â chydymffurfio â'r darpariaethau alergenau yn gallu arwain at risg i

iechyd a diogelwch defnyddwyr.

Mae'r rheoliadau yn mabwysiadu rhai rhanddirymiadau a hyblygrwydd cenedlaethol a ganiateir gan y Rheoliad Gwybodaeth am Fwyd sef:

- rhanddirymiad (derogation) o'r angen i roi gwybodaeth orfodol am laeth a chynhyrchion llaeth mewn poteli gwydr y bwriedir eu hailddefnyddio. Mae mabwysiadu'r rhanddirymiad hwn yn cynnal yr eithriad presennol.
- rhanddirymiad o safonau cyfansoddiad briwgig (minced meat) ar fraster a cholagen i gymarebau protein cig yn y Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd. Mae mabwysiadu'r rhanddirymiad hwn yn caniatáu i fusnesau barhau i gyflenwi marchnadoedd y DU â briwgig traddodiadol, ar yr amod ei fod yn cael ei werthu o dan farc cenedlaethol.
- i gadw'r gofyniad i nodi enw'r bwyd ar fwyd sy'n cael ei werthu heb ei becynnu.
- i gadw'r gofyniad am arwydd meintiol o'r cynnwys cig ar gyfer cynhyrchion cig sy'n cael eu gwerthu heb eu pecynnu ymlaen llaw.
- i gyflwyno'r dulliau penodol y mae'n rhaid eu defnyddio i ddarparu gwybodaeth orfodol am alergenau ar gyfer bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw.
- diweddaru deddfwriaeth labelu a safonau bwyd arall i adlewyrchu'r Rheoliad Gwybodaeth am Fwyd a chyflwyno Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd 2014.

Mae rheoliadau tebyg, ond ar wahân, wedi'u llunio yn Lloegr, yng Ngogledd Iwerddon ac yn yr Alban.

## Gorchymyn Diogelwch Bwyd 1991

Mae ein canllaw i fusnesau yn nodi'r rolau a'r cyfrifoldebau o dan y Gorchymyn, ynghyd â manylion o ran ei orfodi.

Mae disgwyl i reolwyr busnesau mawr a chanolig i ddarllen y canllaw yn fanwl. Bydd angen i staff wybod y prif gyfrifoldebau a amlinellir yn y cyflwyniad.

Dylai busnesau bach hefyd fod yn ymwybodol o'r cyfrifoldebau hyn a gallant ddefnyddio gweddill y canllaw i gyfeirio at y Gorchymyn.

Deddfwriaeth Gorchymyn Diogelwch Bwyd 1991

### Northern Ireland

PDF
Gweld Northern Ireland Food Safety Order 1991 business guide as PDF(Open in a new window)
(301.5 KB)